



Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Dyffryn Nantlle

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2022

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Trosolwg

Ar ôl cyfnod heriol yn hanes yr ysgol, mae arweinyddiaeth gref y pennaeth, gyda chefnogaeth y llywodraethwyr a'i thîm rheoli, wedi sicrhau nifer o welliannau amlwg. Mae yna naws deuluol Gymreig yn yr ysgol ac mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn eu Cymreictod gan gredu bod 'Nunlle fel Nantlle'. Bellach, mae yna ethos gwaith tîm cryf ymysg staff, a dros y deunaw mis diwethaf, mae strwythurau rheoli llinell clir wedi cael eu rhoi ar waith. Ers mis Medi, mae lefelau atebolrwydd wedi cynyddu, ac mae arweinwyr a staff nawr yn cael eu dal yn atebol am ansawdd y ddarpariaeth maent yn ei chynnig i'r disgyblion.

Mae'r gofal, cymorth ac arweiniad y mae'r ysgol yn eu darparu i'r disgyblion yn gryfder. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion lefelau uchel o les. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwerthfawrogi bod ganddynt rywun i droi atynt os ydynt angen cymorth. Mae yna gyfleoedd lu i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol sydd yn cyfoethogi'r addysg. Gwna ddisgyblion y chweched dosbarth gyfraniad gwerthfawr i fywyd yr ysgol trwy gefnogi disgyblion iau mewn amrywiaeth o ffyrdd.

Mae gan yr uwch dîm rheoli ddealltwriaeth dda o'r prif gryfderau a meysydd sydd angen eu gwella ac maent wedi blaenoriaethu'n ddoeth. Mae cynlluniau pwrpasol i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau hyn ac mae effaith nifer o'r camau gweithredu eisoes wedi dwyn ffrwyth. Er enghraifft, mae yna brosesau clir i wella ymddygiad disgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion nawr yn ymddwyn yn dda yn eu gwersi ac o gwmpas y safle. Fodd bynnag, mae yna anghysondeb yn nealltwriaeth arweinwyr o'r union feysydd sydd angen eu gwella o fewn dysgu'r disgyblion ac ansawdd yr addysgu.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n fwriadus er mwyn datblygu medrau llythrennedd disgyblion. Mae yna gyfleoedd gwerthfawr o fewn y pynciau iaith ac ar draws y cwricwlwm i ddisgyblion ddatblygu eu gallu i ddarllen, i ysgrifennu yn estynedig ac i drafod ar lafar. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn ofalgar ac yn llwyddo i greu amgylchedd cynhyrchiol ar gyfer y dysgu. Mewn gwersi a thros amser, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas. Fodd bynnag, mewn tua hanner y gwersi, mae yna ddiffygion yn yr addysgu sy'n golygu nad yw disgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd ac y gallent. Nid oes digon o gyfleoedd o ansawdd uchel i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd, eu medrau digidol, a'u gallu i weithio'n annibynnol.

Argymhellion

- A1 Gwella ansawdd yr addysgu a sicrhau bod yr arferion cryf yn cael eu lledaenu
- A2 Atgyfnerthu gallu arweinwyr i adnabod yn benodol y cryfderau a'r meysydd i'w gwella o fewn y dysgu a'r ddarpariaeth
- A3 Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau rhifedd, medrau digidol a medrau dysgu annibynnol disgyblion

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn cydweithio â'r awdurdod lleol i adolygu cynnydd yr ysgol. Dyma'r gweithgarwch dilynol ysgafnaf, gan nad yw'n statudol.



Cyd-destun yr ysgol

Enw'r darparwr	Ysgol Dyffryn Nantlle
Awdurdod lleol	Cyngor Gwynedd
Iaith y darparwr	Cymraeg
Math o ysgol	Uwchradd
Cymeriad crefyddol	Dim
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	401
Disgyblion o oedran ysgol statudol	362
Nifer yn y chweched dosbarth	39
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn Uwchradd yw 18.5%)	14.3%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn Uwchradd yw 23.0%)	29.3%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	82.9%
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	0.0%
Dyddiad penodi'r pennaeth	01/09/2022
Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol)	31/01/2015
Dyddiad dechrau'r arolygiad	14/11/2022

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 20/01/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.